Er bod Mynydd Rhiw yn codi'n serth o Borth Neigwl, nid llwybr mynyddig yw hwn ond yn hytrach cylchdaith bleserus ar y llechwedd de-ddwyreiniol. Mae'n cynnig golygfeydd ysglennydd o Borth Neigwl a'r bae a mynyddoedd Eryri yn y pellter, yn gymysgedd o lwybrau drwy gaeau mân a ffyrdd yng nghysgod coedlan Plas yn Rhiw, hen blasdy sydd ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac sy'n rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.

## Manylion y daith

**Amcan o hyd:** 4.3 km/2.7 milltir.

**Amcan o'r amser:** 2 awr.

**Map AO:** graddfa 1:25 000 Explorer 253.

**Man cychwyn/gorffen:** Maes Parcio Plas yn Rhiw, SH237 283.

## Mynediad a chyfleusterau

**Parcio:** Maes Parcio Plas yn Rhiw, lle i 25 car, LL53 8AB.

**Bws:** Gweler gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

**Toiledau:** Plas yn Rhiw.

**Lluniaeth:** Plas yn Rhiw.

## Nodwch

- Braslun yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO** uchod.
- Cofier gadw at y Côd Cefn Gwlad: ***Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch*** naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf





Eryri
Mynyddoedd a Môr

# 11 Cylchdaith Rhiw





## Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

Wrth adael y maes parcio Plas yn Rhiw (www.nationaltrust.org.uk/plas-yn-rhiw), ewch i fyny'r ffordd ddi-ddosbarth am ychydig i gyfeiriad pentref y Rhiw. Trowch i'r chwith oddi ar y ffordd i ddilyn trywydd Llwybr yr Arfordir ar ffurf bwa drwy gaeau bychain gan fwynhau golygfeydd dramatig o Borth Neigwl tua'r dwyrain. Rydych yn cyrraedd yn ôl at y ffordd ym mhen isaf y pentref. Trowch i'r dde gan ddilyn y ffordd darmac am ychydig cyn troi i'r chwith ar lwybr arall yn nes ymlaen a disgyn yn raddol i lawr y llechwedd y tu ôl i Blas yn Rhiw. Mae llwybr yn mynd â chi wedyn drwy'r coed ac yn ôl i fyny at y maes parcio.









## Mannau o ddiddordeb

Cyflwynwyd hen blasty **Plas yn Rhiw** ① i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan y chwiorydd Keating. Er mai perthyn i'r 17$^{eg}$ ganrif y mae'r adeilad presennol, fe'i codwyd ar safle hen lys oedd yn eiddo i frenin Gwynedd yn y 9$^{fed}$ ganrif. Yn ogystal â'r plasdy ei hun a'i nodweddion pensaernïol diddorol, mae'r ardd organig yn nodedig gan fod yma lecyn cysgodol a chasgliadau o blanhigion prin.


Tro arall y gellir ei wneud yw dilyn y llwybr i'r chwith o ben uchaf y maes parcio hwn. Mae'r ffordd drol yn dirwyn i lawr y llethr at hen bentref morwrol **Rhuol** ②, yng nghesail gogledd-orllewinol Porth Neigwl. Tafarn oedd yr adeilad ger y lanfa pan oedd y porthladd bychan ar ei anterth ac mae hanesion am smyglo mawr yn cael eu cysylltu â'r hafan ddiarffordd hon.

Eglwys hynafol yw **Eglwys y Rhiw** ③ mewn mynwent llawn cymeriad. Mae hen ffynnon Aelrhiw Sant gerllaw.

Ychydig yn nes am Aberdaron mae eglwys ddiddorol Llanfaelrhys a llwybr i lawr Nant y Gadwen sy'n arwain at draeth **Porth Ysgo** ④. Ar ddechrau'r 20fed ganrif, roedd 90% o fanganîs gwledydd Prydain yn arfer cael ei fwyngloddio yn yr ardal hon. Mae olion 'weiar-rôp' oedd yn cario'r mwyn i'r lanfa islaw yn y Nant (SH210 265). Chwalwyd y lanfa mewn storm yn 1910-11.

Rhwng y Rhiw a Rhoshirwaun mae **Canolfan Felin Uchaf** (www.felinuchaf.org) ⑤ (SH205 288). Canolfan eco arbrofol yw honno sy'n croesawu ymwelwyr i gerdded y llwybrau natur a gweld yr adeiladau treftadaeth. Defnyddir dulliau traddodiadol i godi waliau clai a thyweirch, fframiau derw a thouau gwellt a brwyn. Gwnaed y gwaith gan wirfoddolwyr o bedwar ban y byd a chynhelir nosweithiau o chwedleua a cherddoriaeth yma.

Mae nifer o **olion cyn-hanes** ⑥ o fewn cyrraedd y tro hwn - gwelir cromlech, meini hirion, carneddau a ffatri fwyeill Neolithig ar lethrau Mynydd Rhiw. Gwnaeth archaeolegwyr raglen ddyfal o waith yn yr ardal dros y blynyddoedd diwethaf gan ganfod hen dai crynion a llawer o ôl bywyd cynnar yma.



www.ymweldageryri.info

Although Mynydd Rhiw rises steeply from Porth Neigwl (also known as *Hell's Mouth*), this isn't a mountain path, but rather an enjoyable circular walk on the south-easterly hillside. It offers spectacular views of Porth Neigwl and the bay and the Snowdonia Mountains in the distance, and follows an assortment of paths through small fields and roads sheltered by the woods of Plas yn Rhiw – an old manor house now owned by the National Trust – and located in the Llŷn Area of Outstanding Natural Beauty.

## Walk details

**Approx. distance**: 4.3 km/2.7 miles.

**Approx. time**: 2hrs.

**OS Map**: 1:25 000 scale Explorer Map 253.

**Star/finish**: Plas yn Rhiw car park, SH237 283.

## Access and amenities

**Parking**: Plas yn Rhiw car park; 25 spaces, LL53 8AB.

**Bus**: Llŷn Coastal Bus service: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

**Toilets**: Plas yn Rhiw.

**Refreshments**: Plas yn Rhiw.

## Please note

- This map is a rough guide only. We recommend you use the above **OS map**.
- Remember to adhere to the Countryside Code: ***Respect, Protect, Enjoy*** naturalresources.wales/media/1369/the-countryside-code.pdf






# 11 Rhiw Circular walk




## Walk directions

As you leave the Plas yn Rhiw car park (www.nationaltrust.org.uk/plas-yn-rhiw), walk up the unmarked road for a while in the direction of the village of Rhiw. Turn left off the road to follow the trail of the Coast Path in a curve through small fields, taking time to enjoy the dramatic views of Porth Neigwl to the east. You will come back to the road at the lower part of the village. Turn right, following the tarmac road for a while before turning left soon after onto another path, and gradually descend the hillside behind Plas yn Rhiw. The path then leads you through the woods and back up towards to the car park.







## Points of interest

The old **Plas yn Rhiw** ① mansion was presented to the National Trust by the Keating sisters. Although the current building belongs to the 17th century, it was built on the site of old halls belonging to the king of Gwynedd in the 9th century. In addition to the mansion itself and its architectural characteristics, the organic garden is notable for its sheltered site and rare collections of plants.

You could embark on another walk by following the path to the left of the upper end of this car park. The cart track meanders down the slope to the old maritime village of **Rhuol** ② in the north-west recess of Porth Neigwl. The building near the jetty was a public house when the small port was at its peak, and great tales of smuggling are linked to this inaccessible haven.

**Rhiw Church** ③ is an ancient church in a cemetery full of character. The old St Aelrhiw's Well is located nearby.

Slightly nearer Aberdaron lies the interesting Llanfaelrhys church and a path leading down to Nant y Gadwen, which leads to the beach of **Porth Ysgo** ④. At the beginning of the 20th century, 90% of the manganese produced in Britain was mined in this area. Remains can be seen of the wire-rope which carried the mineral to the jetty below in the Nant (SH210 265). The jetty was destroyed in a storm in 1910-11.

**Canolfan Felin Uchaf** ⑤ (www.felinuchaf.org) is located between Rhiw and Rhoshirwaun (SH205 288). This is an experimental eco centre that welcomes visitors to walk the nature paths and see the heritage buildings. Traditional methods are used to build clay and turf walls, oak frames and thatched roofs using straw and rushes. The work is carried out by volunteers from all parts of the world and evenings of story-telling and music are held here.

There are a number of **prehistoric remains** ⑥ within reach of this walk – a cromlech, monoliths, cairns and a Neolithic axe factory can be seen on the slopes of Mynydd Rhiw. Archaeologists have followed a diligent programme of work in the area over the last few years, and discovered old round houses and many signs of early life.

